# Uned Wenyn Genedlaethol

Animal & Plant Health Agency

## Adroddiad Blynyddol Cymru 2019

### Tymor 2019

Nid oeddem, yn ôl pob tebyg, yn disgwyl y byddai'n flwyddyn wych ar gyfer cadw gwenyn yng Nghymru, ond felly y bu. Ar ôl gaeaf mwyn, cawsom gyfnod cynnes iawn ar ddiwedd mis Chwefror, ac ni wnaeth y tywydd droi'n oer eto ym mis Mawrth, felly cafodd nythfeydd gychwyn da iawn y tymor hwn, gan ddal y bobl sy'n cadw gwenyn yn ôl y calendr yn lle cadw llygad ar y tywydd a'r nyth epil yn y cwch gwenyn. Daeth y tymor heidio'n gynnar. Roedd mis Ebrill a mis Mai yn addawol iawn, ond roedd bwlch amlwg ym mis Mehefin ac roedd hanner cyntaf y mis yn wlyb, felly cafodd nythfeydd a oedd wedi heidio neu wedi rhannu ym mis Mai drafferth yn cael eu mamwenyn yn ôl ac yn eu paru, ac o ganlyniad roedd nifer o famwenyn yn dodwy gwenyn gwryw. Gwelodd y rhai a gymerodd gnwd mêl yn y gwanwyn fod angen eu bwydo lle nad oedd porthiant ar gael.

Roedd mis Gorffennaf yn gynnes ac yn sych, a daeth heidio am yr eildro, gan fod rhai heidiau cynnar yn ceisio heidio eto. Erbyn diwedd y mis roedd y llif mêl wedi lleihau, ond lle roedd llif y gwanwyn a llif yr haf wedi bod yn dda, cafwyd cnydau mawr cyhyd â bod y gwenyn wedi'u rheoli'n dda. Hon oedd y sefyllfa gyffredin, ond mewn rhai ardaloedd gwnaeth y tymor a oedd yn argoeli'n arbennig o dda droi'n un â chnwd dim ond ychydig yn uwch na'r arferol. Nid oedd unrhyw incwm o gwbl gan rai safleoedd grug sydd yn aml yn cynhyrchu rhywfaint o fêl grug, a dim ond cnwd bychan gan rai eraill.

Daeth y llif iorwg yn hwyr a phan ddechreuodd o'r diwedd roedd hi'n bwrw glaw bron bob dydd, a oedd yn golygu ei bod yn anodd i'r gwenyn ychwanegu at eu pwysau arferol ar gyfer y gaeaf. Felly roedd y cychod na chawsant eu bwydo ac y tynnwyd gormod o fêl ohonynt ar fin newynu ym mis Medi. Roedd gwenyn meirch yn achosi problemau mewn rhai ardaloedd, ond roedd y sefyllfa'n amrywio o ardal i ardal, ac roedd llai o Gacwn Ewrop eleni nag y llynedd.

Nododd yr arolygwyr lefel uwch o widdon faroa mewn nythfeydd eleni. Mae'n bwysig monitro lefelau a bod yn barod i helpu nythfeydd drwy roi triniaeth iddynt os oes angen; rydym yn parhau i weld llawer o nythfeydd sy'n methu â ffynnu ac yn dioddef lefelau straen uchel o ganlyniad i widdon faroa a firws adenydd wedi'u hanffurfio. Gwelwyd lefelau firws mag sachau a oedd yn amlwg yn uchel mewn nythfeydd ledled Cymru.



*Weithiau rydym yn dod ar draws yr hyn sy'n amhosibl – lluniau Adam Parker*

> ***Y cnwd mêl:*** *Y cnwd mêl fesul cwch yn 2019, fel y cofnodwyd gan yr Arolygwyr Gwenyn Tymhorol yng Nghymru ar gyfer eu hardaloedd eu hunain, yw 55 pwys ar gyfartaledd, sef yr un pwys ag y llynedd*

## Y Tîm yng Nghymru

Roedd yn ddrwg gennym golli Edmund Thomas ac Ade Bowen eleni. Gwnaeth Edmwnd newid gyrfa a dechrau swydd wahanol ar ôl bod gyda ni am saith mlynedd, a gwnaeth Ade Bowen ymddeol ynghanol y tymor ar ôl gweithio fel Arolygydd Gwenyn Tymhorol am ddeng mlynedd. Fodd bynnag, mae'n bleser gennym groesawu Daniel Baxter i'r tîm o Bont-y-pŵl. Cafodd Daniel ei hyfforddi yn yr Uned Wenyn Genedlaethol yng Nghaerefrog a chafodd hyfforddiant maes yng Nghymru ar gyfer hanner cyntaf y tymor. Erbyn hyn mae'n gweithio yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Byddwn yn recriwtio er mwyn llenwi swydd wag Ade yn y flwyddyn newydd drwy broses recriwtio'r Gwasanaeth Sifil. Yn y cyfamser, byddwn yn hapus i gael unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

O 1 Ebrill 2020 ymlaen, gallwch ddefnyddio'r cyfleuster chwilio cod post ar dudalen manylion cyswllt BeeBase i weld pwy yw eich Arolygydd Gwenyn Tymhorol lleol. Gallwch gysylltu â'ch Arolygydd drwy ddefnyddio'r rhifau ffôn isod o ddechrau mis Ebrill tan ddiwedd mis Medi.

| **Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol** | **Ardal** | **Manylion cyswllt** |
|---|---|---|
| Frank Gellatly | Canol Sir Gaerfyrddin 01267 202732 | 07775 119480 |
| **Arolygwyr Gwenyn Tymhorol** | **Ardal** | **Manylion cyswllt** |
| Jonathan Garratt | Ynys Môn, Gogledd Gwynedd a Chonwy | 07775 119479 |
| Tony Davis | Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam | 07900 166018 |
| Paul Aslin | De Gwynedd, Gogledd Powys, | 07867 351605 |
| Karen Smith | Ceredigion | 07979 119374 |

| | | |
|---|---|---|
| Shane Jones | Powys | 07827 552312 |
| Chris Welton | Gogledd Sir Benfro, De-orllewin Ceredigion | 07900 166143 |
| Maggie Gill | De Sir Benfro, De Sir Gaerfyrddin | 07979 119373 |
| Gwag | Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful | |
| Daniel Baxter | Caerdydd, Bro Morgannwg, Pen-y-bont ar Ogwr | 07771 038646 |
| Adam Parker | Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent | 07990 138902 |

Yn ystod tymor y gaeaf, sef rhwng mis Hydref a mis Mawrth, dylech gyfeirio pob ymholiad at yr Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol.

**Nifer y gwenynwyr**

Ar hyn o bryd mae 3,647 o wenynwyr yng Nghymru sydd wedi'u cofrestru ar Beebase, sef cronfa ddata ar-lein yr UWG. Rhyngddynt, mae ganddynt 24,040 o nythfeydd mewn 5,040 o wenynfeydd – sef cyfartaledd o 6.6 nythfa fesul gwenynwr a 4.8 nythfa fesul gwenynfa. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y gwenynwyr newydd sy'n cofrestru ar Beebase yng Nghymru wedi amrywio – yn 2015 cofrestrwyd 347 o wenynwyr newydd, gyda'r nifer hwn yn gostwng i 246 yn 2016, i 205 yn 2017 ac i 216 yn 2018, gan gynyddu unwaith eto i 317 yn 2019.

Mae'r graffiau a'r ffigurau yn yr adroddiad hwn ar gael ar dudalennau cyhoeddus Beebase, gwefan yr UWG (www.nationalbeeunit.com) yn 'Bee Pests, Diseases and Maps'. Mae'r wefan hefyd yn cynnig sawl tudalen o awgrymiadau, cyngor a thaflenni y gellir eu lawrlwytho ar reoli clefydau a magu gwenyn.

**Cofrestru ar Beebase a Rhestrau Aelodaeth Cymdeithasau**

Hoffwn atgoffa pawb pa mor bwysig yw bod pob gwenynfa'n cael ei chofrestru ar BeeBase fel y gallwn nodi unrhyw wenynfa a gaiff ei pheryglu gan glefyd hysbysadwy neu blâu egsotig yng Nghymru a thargedu mesurau rheoli'n effeithiol. Gallwch gofrestru'ch hun am ddim yn https://secure.fera.defra.gov.uk/beebase/public/register.cfm?lang=welsh, neu gallwch gofrestru drwy gysylltu â swyddfa'r UWG ar 033 303 0094 neu drwy eich Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol.

Bydd pob gwenynwr sydd wedi'i gofrestru ar BeeBase â chyfeiriad e-bost cyfredol yn cael e-bost awtomatig i'w rybuddio os deuir o hyd i glefyd o fewn 3km i'r wenynfa a gofrestrwyd. Os ydych wedi cofrestru eich hun, byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn sicrhau bod y cofnodion am eich gwenynfeydd yn gyfredol. Rydym yn argymell eich bod yn cofrestru'ch hun oherwydd drwy wneud hyn mae gwenynwyr hefyd yn cael mynediad wedi'i ddiogelu â chyfrinair i'w manylion personol a chofnodion archwilio.

Mae hefyd yn ddefnyddiol os bydd eich cymdeithas yn anfon rhestr o aelodau atom. Gall wneud hyn os yw'n bodloni gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Y ffordd hawsaf i wneud hyn yw newid y ffurflen adnewyddu aelodaeth er mwyn cynnwys testun tebyg i'r canlynol:

*"Noder mai un o amodau eich aelodaeth yw eich bod yn cytuno y caiff eich manylion aelodaeth eu cadw ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth hon i helpu'r swyddogion i redeg y gymdeithas yn effeithlon, i ddosbarthu cylchgrawn Cymdeithas Gwenynwyr Cymru ac ar gyfer Yswiriant Cymdeithas Gwenynwyr Cymru ac Yswiriant Afiechyd Gwenyn. Caiff ei throsglwyddo i'r Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol i gael ei chynnwys ar BeeBase er mwyn eu helpu i reoli clefydau hysbysadwy ymysg gwenyn".*

Mae'r rhestrau hyn yn ddefnyddiol iawn i ni gan eu bod yn ein galluogi i nodi gwenynwyr newydd a diweddaru manylion cyswllt ar gyfer gwenynwyr presennol. Ysgrifenyddion - os oes system o'r fath ar waith gennych eisoes, e-bostiwch eich rhestr aelodau bresennol ataf fel y gallaf sicrhau bod ein cofnodion mor gywir ac mor llawn â phosibl. Bydd hyn yn arbennig o bwysig os byddwn mor anlwcus â dod o hyd i Chwilen Fach y Cwch Gwenyn yn y DU neu Gacwn Asia yng Nghymru'r tymor nesaf.

**Archwiliadau**

Eleni, ymwelodd yr Arolygwyr Gwenyn Tymhorol â chyfanswm o 634 o wenynwyr mewn 1026 o wenynfeydd gan archwilio 5288 o nythfeydd yng Nghymru. Mae hyn yn ostyngiad bach yn nifer y gwenynwyr a'r gwenynfeydd ond yn gynnydd yn nifer y nythfeydd a archwiliwyd o gymharu â 2018. Hefyd, cynhaliwyd 6 o archwiliadau mewnforio gan wneud gwaith dilynol mewn perthynas â mamwenyn a oedd wedi cael eu mewnforio o wledydd eraill yn yr UE.

**Mewnforion 2019**

Dim ond os oes ganddynt dystysgrif iechyd Swyddogol gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) neu Drydedd Wlad a roddwyd gan yr awdurdod cymwys yn nharddle'r gwenyn y gellir mewnforio neu allforio gwenyn, (gan gynnwys mamwenyn, pecynnau a nythfeydd). Mae'n ofyniad **cyfreithiol** eich bod yn hysbysu'r **Uned Wenyn Genedlaethol** am wenyn sy'n cael eu mewnforio o'r tu allan i'r DU. Gallwch wneud hyn drwy gwblhau'r Ffurflen Hysbysu Mewnforiwr a'i phostio, ei ffacsio neu ei he-bostio i swyddfa'r UWG. Fel arall, os ydych yn hunangofrestredig, gallwch fewngofnodi i'r tudalennau i Wenynwyr ar Beebase a chlicio ar y ddolen 'Import Notifications' o'r mynegai ar y llaw chwith. Wrth gwrs, mae'n anghyfreithlon mewnforio gwenyn, mamwenyn neu unrhyw gynhyrchion sy'n gysylltiedig â gwenyn o'r tu mewn i barth diogelwch chwilod bach y cwch gwenyn o amgylchedd yr ardaloedd yr effeithir arnynt yn ne'r Eidal.

Gellir manylion ar y tudalennau Mewnforion/Allforion ar Beebase yn http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm?sectionid=47. Bydd angen cyfeirio at y tudalennau hyn i gael gwybod am unrhyw newidiadau ar ôl Brexit.


## Clefydau a Phlâu

**Clefydau hysbysadwy: Clefyd Ewropeaidd y Gwenyn a Chlefyd Americanaidd y Gwenyn**


Y tymor hwn, canfuwyd clefyd y gwenyn mewn 20 o wenynfeydd, gan effeithio ar 33 o nythfeydd, o gymharu â 2018 pan ganfuwyd y clefyd mewn 11 o wenynfeydd gan effeithio ar 14 o nythfeydd. Mae hyn yn gynnydd o 82% o ran gwenynfeydd a 136% o ran nythfeydd y canfuwyd clefyd y gwenyn ynddynt.

Roedd y tymor eithriadol o dda y llynedd wedi sicrhau nad oedd llawer o achosion. Eleni, mae nifer y gwenynwyr a gwenynfeydd â Chlefyd Ewropeaidd y Gwenyn wedi aros yr un peth, ond mae cynnydd wedi bod yn nifer y nythfeydd yr effeithir arnynt. Mae niferoedd y gwenynwyr, y gwenynfeydd a'r nythfeydd yr effeithir arnynt gan Glefyd Americanaidd y Gwenyn wedi cynyddu yn Sir Fynwy, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.

**Nifer yr Achosion o Glefyd Ewropeaidd y Gwenyn yng Nghymru 2015 – 2019**
(fesul sir a gadwyd)



**Nifer yr Achosion o Glefyd Americanaidd y Gwenyn yng Nghymru 2015 - 2019**
(fesul sir a gadwyd)




Ceir manylion pellach am achosion o glefyd y gwenyn a gofnodwyd ynghyd â mapiau ar y tudalennau ar BeeBase sy'n ymdrin â chlefydau gwenyn yn www.nationalbeeunit.com . Argymhellir y dylech edrych ar y rhain yn rheolaidd i weld a oes unrhyw achosion o glefyd y gwenyn wedi'u canfod gerllaw.

**Gwiddon Faroa**

Nod hirdymor unrhyw wenynwr sy'n bridio mamwenyn yw bridio rhai sydd ag ymwrthedd i widdon faroa, ond yn anffodus nid ydym wedi cyrraedd y pwynt eto lle mae'r math hwn o wenyn ar gael i'w prynu. Felly nes ein bod yn cyrraedd y pwynt hwnnw, mae'r UWG yn hyrwyddo arferion Rheoli Plâu Integredig. Mae'r rhan fwyaf o wenynwyr yn dilyn yr arferion hyn i raddau, boed yn fwriadol neu beidio, drwy ddefnyddio rheolaethau biotechnegol megis hollti nythfeydd, gorfodi cyfnodau o beidio â dodwy, cael gwared ag epil gwenyn gwryw, a defnyddio lloriau rhwyllau agored.

Wrth roi triniaeth, mae'n bwysig defnyddio cynhyrchion sydd wedi'u hawdurdodi gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol, dilyn y cyfarwyddiadau wrth roi triniaeth, a pheidio â defnyddio'r un driniaeth ar gyfer gwiddon faroa sawl gwaith yn olynol.

Ers fy adroddiad blynyddol diwethaf, mae sawl triniaeth newydd ar gyfer gwiddon faroa wedi cael ei hawdurdodi i'w defnyddio yn y DU, ond mae nifer o gynhyrchion effeithiol iawn ar y farchnad sy'n cynnwys cynhwysion sy'n gweithio mewn ffordd fwy naturiol, gan gynnwys thymol, asid fformig ac asid ocsalig, yn ogystal â'r gwiddonladdwyr cemegol sy'n cynnwys cemegau pyrethroid synthetig neu amitraz. Mae gwenynwyr o bedwar ban byd wedi dangos pa mor hawdd yw bridio gwenyn ag ymwrthedd i widdon

faroa drwy ddefnyddio cynhyrchion effeithiol heb orfod eu cylchdroi na defnyddio unrhyw ddulliau biotechnegol eraill.

Mae'n ofyniad cyfreithiol bod achosion o ddefnyddio unrhyw driniaethau'n cael eu cofnodi, a rhaid cadw'r cofnodion hyn am bum mlynedd o leiaf. Mae manylion llawn ar gael drwy'r ddolen hon -
http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm?sectionid=110

Mae fersiynau pdf o nifer o daflenni gwybodaeth am ddim ar wefan BeeBase, gan gynnwys y llyfryn 'Managing Varroa'.
http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm?pageid=167



*Effeithiau gwaethaf gwiddon faroa: syndrom gwiddon parasitig a firws adenydd wedi'u hanffurfio – lluniau Meg Seymour*

**Ymarfer Cynllun Wrth Gefn yr UWG yn 2019**

Mae ymarferion o dan y cynllun wrth gefn yng Nghymru a Lloegr yn un o ddangosyddion perfformiad allweddol y rhaglen iechyd gwenyn. Cynhaliwyd ymarfer gan yr Uned Wenyn Genedlaethol ar y cyd â Llywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf eleni i fynd i'r afael ag achos ffug o Chwilen fach y cwch gwenyn (*Aethina tumida*), o ganolfan flaenweithredu yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Yn y ganolfan flaenweithredu, defnyddid system rheoli digwyddiad yn seiliedig ar y system a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys, yn cynnwys rolau sefydlog rheolwr y digwyddiad, y rheolwr sector, a chymorth rheoli. Nod yr ymarfer deuddydd oedd rhoi prawf ar weithdrefnau mewn perthynas â gweithgareddau rheoli a gweithgareddau maes, yn benodol:

- Gweithrediad y ganolfan flaenweithredu megis sesiynau briffio bob dydd, monitro gweithgareddau maes a gweithdrefnau trosglwyddo gan gynnal rhychwantau rheoli a gorchymyn.
- Gwaith adrodd bob dydd o'r ganolfan flaenweithredu i Ganolfan Genedlaethol Rheoli Clefydau ac Adran Arweiniol y Llywodraeth.
- Cydgysylltu â chymdeithasau gwenynwyr lleol a gwenynwyr â gwenynfeydd yn yr ardal, trefnu a monitro archwiliadau yn y maes ac ymateb i ddigwyddiadau sy'n codi o ganlyniad i'r archwiliadau.

Archwiliwyd cyfanswm o 129 o nythfeydd mewn 28 o wenynfeydd yn ystod yr ymarfer, a oedd yn gofyn am weithdrefnau archwilio penodol yn dilyn y cynllun wrth gefn ar gyfer Chwilen Fach y Cwch Gwenyn. Mae manylion ar gael yn http://www.nationalbeeunit.com/index.cfm?pageid=206 Casglwyd adborth gan y cyfranogwyr a chofnodwyd y canlyniadau pwysicaf i'w rhoi ar waith yn y dyfodol.

## Gwaith gwylio rhag Plâu Egsotig

Yng Nghymru, cynhaliwyd 358 o archwiliadau a oedd yn ymwneud yn benodol â phlâu egsotig yn 2019, gan dargedu cyfuniad o bwyntiau risg a nodwyd a safleoedd a ddewiswyd ar hap. Mae'n naturiol, yn dilyn achosion amlwg yn ddiweddar, bod gwenynwyr yn canolbwyntio ar fygythiad Cacwn Asia, ond rhaid i ni fod yn effro mewn perthynas â phlâu eraill hefyd. Gall Chwilen Fach y Cwch Gwenyn gael ei chludo i mewn i'r Deyrnas Unedig yn anfwriadol drwy fasnach ryngwladol wrth fewnforio gwenyn, cynhyrchion bwyd, a hyd yn oed yn y pridd pan fyddant yn chwileru. Er y gwaherddir mewnforio gwenyn o ardaloedd y gwyddys bod Chwilen Fach y Cwch Gwenyn yn bresennol yno, mae masnach arall yn parhau, ac maent yn parhau i gael eu symud.

Mae gennym 14 o Wenynfeydd Sentinel ac 8 o Wenynfeydd Sentinel Uwch yng Nghymru. Lleolir Gwenynfeydd Sentinel mewn ardaloedd yr ystyrir eu bod 'mewn perygl'. Mae gwenynwr gwirfoddol yn y lleoliad hwn yn cytuno i fonitro ei nythfeydd i weld a oes plâu egsotig yn bresennol yn benodol. Yn ogystal ag archwiliad gweledol, caiff malurion llawr o'r cychod gwenyn dynodedig eu samplu ddwywaith y flwyddyn a'u profi ar gyfer unrhyw olion Chwilod Bach y Cwch Gwenyn a gwiddon Tropilaelaps. Ni chodir tâl am y costau postio, y cyfarpar na'r gwaith papur. Mae'r gwenynwr yna yn casglu'r samplau ac yn eu hanfon i'w dadansoddi i labordy'r UWG yng Nghaerefrog.

Lleolir Gwenynfeydd Sentinel Uwch yn agos i bwyntiau risg uchel, e.e. porthladdoedd cludo. Mae Arolygydd Gwenyn Tymhorol penodedig yn ymweld â nhw ym mis Ebrill, mis Mehefin a mis Medi. Caiff y nythfeydd eu harchwilio'n fanwl, ac anfonir samplau i'w dadansoddi. Darperir trapiau Chwilen Fach y Cwch Gwenyn hefyd i'w rhoi mewn nythfeydd mewn gwenynfeydd sentinel a gwenynfeydd sentinel uwch.

Hoffwn ddiolch i'r gwenynwyr hynny sy'n gwneud y gwaith hwn ar hyn o bryd. Cofiwch gysylltu â mi neu eich Arolygydd Gwenyn Tymhorol os hoffech gymryd rhan yn y dyfodol.

## Cacwn Asia

Yn 2019, cafodd tair nyth Cacwn Asia eu canfod a'u difa gan yr Uned Wenyn Genedlaethol ar ôl iddynt gael eu gweld gan aelodau o'r cyhoedd. Roedd yr un gyntaf yn ardal Tamworth, Swydd Stafford ar 6 Medi.

Ar 4 Hydref cafodd nyth arall ei difa ar ôl cadarnhau bod Cacynen Asia wedi cael ei gweld yn ardal Christchurch, Dorset, a chafodd ail nyth ei difa gerllaw ar 11 Hydref. Roedd yr ail nyth hon yn debygol o fod yn nyth sylfaenol, yn perthyn i'r nyth a gafodd ei difa yr wythnos flaenorol. Cynhelir dadansoddi genetig er mwyn deall y berthynas rhwng y ddwy nyth.

Hefyd, cadarnhawyd bod Cacwn Asia wedi cael eu gweld ar ddau achlysur unigol arall. Roedd yr achos cyntaf ar 2 Gorffennaf, pan welwyd Cacynen Asia yn New Milton, Hampshire. Ar ôl edrych yn fanwl ar y gacynen, mae'n debyg mai 'brenhines' oedd. Rhoddodd aelod arall o'r cyhoedd wybod ei fod wedi gweld cacynen Asia i'r de-orllewin o Ashford, Caint, ar 9 Medi. Cafodd cacynen unigol ei dal, ac mae gwaith gwylio'n parhau. Mae'r UWG wedi anfon rhybudd er mwyn annog pob gwenynwr ac aelodau o'r cyhoedd i gadw llygad am Gacwn Asia yn eu gwenynfeydd, ar ffrwythau sydd wedi cwympo ac ar blanhigion sy'n blodeuo megis iorwg.

Rydym yn gofyn i wenynwyr a'r cyhoedd fod yn effro a rhoi gwybod os ydynt yn amau eu bod wedi gweld Cacwn Asia drwy ddefnyddio'r ap iPhone ac Android 'Asian Hornet Watch', drwy lenwi ffurflen rhoi gwybod ar-lein neu drwy e-bostio alertnonnative@ceh.ac.uk.

- Mae'r ap ‘Asian Hornet Watch’ ar gael i'w lawrlwytho am ddim o storfeydd apiau Apple ac Android.
- Gall aelodau o'r cyhoedd hefyd roi gwybod am Gacwn Asia y maent wedi'u gweld drwy anfon neges e-bost i alertnonnative@ceh.ac.uk. Anfonwch ffotograff, nodwch le y daethoch o hyd iddi a rhowch rif ffôn fel y gellir cysylltu â chi.
- Gellir anfon adroddiadau drwy ddefnyddio'r ffurflen gyflwyno ar-lein ar wefan yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron, unwaith eto gyda ffotograff.
- Ceir manylion am sut i adnabod Cacwn Asia ar ganllaw BeeBase neu ar daflen adnabod Cacwn Asian yr Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron.

Cefais fy newis i fynd i Ynys Jersey ar ddiwedd mis Awst er mwyn cael hyfforddiant ar olrhain lleoliad nythod Cacwn Asia. Gwnes i, a chydweithiwr o Loegr, dreulio pum diwrnod gydag Alastair Christie, sef cydlynydd rhaglen Cacwn Asia Llywodraeth Ynys Jersey, a'i dîm o wirfoddolwyr. Mae'r ffotograffau canlynol yn cynnig cipolwg ar erthygl am fy mhrofiad a fydd yn ymddangos yn rhifyn y gwanwyn o'r cylchgrawn Gwenynwr Cymru.





*Man abwyd gyda Chacynen Asia yn bwydo Nyth, Bae Portelet, Ynys Jersey – lluniau F Gellatly*

**Gwaith gwylio rhag Chwilen Fach y Cwch Gwenyn yn yr Eidal yn 2019**



*Chwilen Fach y Cwch Gwenyn (Aethina Tumida), cyfnodau llawndwf a larfa – lluniau Beebase*

Ar 18 Mehefin 2019, cadarnhawyd bod Chwilen Fach y Cwch Gwenyn (*A. tumida*) yn bresennol unwaith eto yn nwyrain Sisili, mewn gwenynfa ym mwrdeistref Lentini yn rhanbarth Syracusa. Canfuwyd dwy Chwilen Fach y Cwch Gwenyn lawndwf mewn dwy wahanol nythfa. Roedd y wenynfa hon wedi bod dan wyliadwriaeth ers mis Mai 2019 oherwydd ar 2 Mai roedd yr awdurdodau wedi atal 64 o nythfeydd rhag cael eu symud allan o Sisili heb unrhyw ddogfennau atodol ym mhorthladd Villa San Giovanni ar dir mawr yr Eidal.

Anfonwyd y nythfeydd yn ôl i'r wenynfa wreiddiol yn Sisili. Cynhaliwyd sawl archwiliad o'r wenynfa hon ar ôl hynny er mwyn chwilio am *A. tumida*. Yn ystod un ymweliad, daethpwyd o hyd i 13 o nythfeydd na wyddys o ble daethant yn wreiddiol, a chanfuwyd Chwilen Fach y Cwch Gwenyn mewn dwy ohonynt. Dangosodd ymchwiliadau epidemiolegol i'r 13 nythfa hyn gael eu dwyn ar 9 Mehefin ym mharth diogelwch Reggio de Calabria ar y tir mawr.


Dim ond unwaith yr oedd *Aethina tumida* wedi cael ei chanfod yn Sisili cyn yr achos hwn, sef ar 7 Tachwedd 2014. Canfuwyd Chwilod Bach y Cwch Gwenyn llawndwf mewn gwenynfa fudol ym mwrdeistref Melilli, tua 35km o Lentini. Ar y pryd, roedd ymchwiliadau epidemiolegol wedi dangos bod y nythfeydd yn bresennol yn Gioia Tauro rhwng mis Ebrill a mis Awst 2014. Gioia Tauro yw bwrdeistref ardal Calabrio lle canfuwyd Chwilod Bach y Cwch Gwenyn gyntaf. Ar ôl yr achos hwn, gwneid gwaith gwylio bob blwyddyn a chynhaliwyd archwiliadau o wenynfeydd a gwenynfeydd sentinel a ddewiswyd.

Gan na ddaethpwyd o hyd i unrhyw achosion newydd yn y ddwy flynedd ar ôl canfod Chwilod Bach y Cwch Gwenyn, dilëwyd Sisili o'r rhestr o ardaloedd sy'n destun mesurau amddiffyn mewn perthynas â Chwilod Bach y Cwch Gwenyn yn yr Eidal drwy benderfyniad Gweithredu'r Comisiwn ar 1 Mawrth 2017. Cynhaliwyd dadansoddiad ffylogenetig ar y sbesimenau a gafodd eu canfod ym mis Mehefin 2019. Roedd y canlyniadau'n dangos bod proffil genetig y sbesimenau'n debyg i broffil un o'r sbesimenau eraill a ynyswyd yn flaenorol yn ardal Calabria ond yn wahanol i broffil genetig y sbesimenau a ynyswyd yn yr achos blaenorol o ganfod Chwilod Bach y Cwch

Gwenyn a gadarnhawyd yn Sisili ym mis Tachwedd 2014. Mae'n cadarnhau bod yr achos o ganlyniad i symud nythfeydd yn anghyfreithlon o barth diogelwch Reggio di Calabria, ac nid o ganlyniad i ledaeniad Chwilod Bach y Cwch Gwenyn yn Sisili.

Cafodd y wenynfa yr effeithiwyd arni ei difa ar 23 Mehefin 2019 a chafodd y pridd ei drin â thoddiant permethrin. Gosodwyd parth diogelwch dros radiws o 5km o amgylch y safle a chynhelir archwiliadau ar y 54 o wenynfeydd a gofresrwyd yn y parth.

Ni chanfuwyd unrhyw achosion newydd ym mharth diogelwch Reggio di Calabria, sef safle'r achos gwreiddiol ar dir mawr yr Eidal, ers mis Tachwedd 2018 pan ganfuwyd Chwilod Bach y Cwch Gwenyn ddiwethaf mewn gwenynfa sentinel. Ni chanfuwyd unrhyw achosion newydd yn rhanbarth Cosenza (a leolir yng ngogledd Calabria) ers mis Medi 2016. Rhaid nodi bod gwaith gwylio yn parhau yn yr Eidal, ac nad yw pob archwiliad arfaethedig wedi cael ei gynnal, na'i nodi eto.




*Parth gwylio rhag Chwilod Bach y Cwch Gwenyn yn Calabria a Sisili, ar 18 Gorffennaf 2019*

## Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Pryfed Peillio

Mae Tasglu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio yng Nghymru wedi cyflwyno sylwadau ar ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir* er mwyn hybu gweithgarwch i gefnogi, cynnal neu sefydlu poblogaethau pryfed peillio sy'n iach ac yn amrywiol er lles yr amgylchedd, cymdeithas a'r economi. Mae pryfed peillio gwyllt, gan gynnwys cacwn, gwenyn unigol, gwenyn meirch parasitig, pryfed hofran, glöynnod byw, gwyfynod a rhai chwilod yn ogystal â gwenyn mêl, yn bryfed peillio pwysig yng Nghymru ar gyfer cnydau megis ffrwythau ac olew had rêp,

meillion a phlanhigion eraill sy'n sefydlogi nitrogen sy'n gwella cynhyrchiant tir pori ar gyfer da byw a blodau gwyllt. Maent yn cyfrannu at amrywiaeth rhywogaethau planhigion, cynefinoedd a bywyd gwyllt yng Nghymru, yn ogystal â chefnogi ei gwydnwch a'i harddwch naturiol.




*Gwenynen Ddeildorrol – lluniau Maggie Gill*

**Hyfforddiant i Wenynwyr**

Aethom i Gynhadledd Cymdeithas Gwenynwyr Cymru ym mis Mawrth â stondin yr UWG a thîm archwilio Cymru. Roedd hyn yn gyfle da i gwrdd â gwenynwyr hen a newydd a rhannu gwybodaeth am iechyd gwenyn a phlâu egsotig.

Eleni gwnaethom gynnal pedwar Diwrnod Iechyd Gwenyn ym mis Mehefin gyda Chymdeithas Gwenynwyr Sir Drefaldwyn a Chymdeithas Gwenynwyr Conwy, ac yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyniad ar gyfer gwenynwyr yn edrych ar iechyd gwenyn ac arferion da. Yn Henfaes a'r Ardd Fotaneg Genedlaethol, cafodd gwenynwyr gyfle i gymryd rhan mewn archwiliad yn y wenynfa, lle yr oeddem yn dangos y ffordd mae'r UWG yn archwilio cychod gwenyn.

Dan do, cafodd gwenynwyr y cyfle i weld crwybrau heintiedig, a gafodd eu harddangos o dan drwydded arbennig, er mwyn rhoi iddynt brofiad ymarferol o glefyd y gwenyn. Roedd y gweithdai yn edrych ar wahanol blâu a chlefydau ac arferion da a pherthnasol o ran cadw gwenyn, o reoli gwiddon faroa i fioddiogelwch a phlâu egsotig.

Mae aelodau o'r tîm wedi annerch eu cymdeithasau lleol, gan roi cyfle i wenynwyr gwrdd ag aelodau o dîm yr Uned yng Nghymru er mwyn iddynt ddeall diben a gwerth gwaith yr Arolygiaeth ac, yn bwysicaf oll, i ddatblygu eu gwybodaeth a'u diagnosis o'r bygythiadau allweddol i'w gwenyn o ran plâu a chlefydau.





*Diwrnod Iechyd Gwenyn, Cymdeithas Gwenynwyr Conwy, Henfaes – lluniau Barry Griffiths*

### Yn olaf

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r holl arolygwyr yng Nghymru am eu help a'u cymorth dros y flwyddyn, ac i'r Cymdeithasau Gwenynwyr am eu brwdfrydedd wrth gynnal ein digwyddiadau Iechyd Gwenyn. Hoffwn ddiolch i chi hefyd, wenynwyr, am gydweithio â'n harolygwyr pan fyddant yn gofyn am gael gweld eich nythfeydd. Byddwch ar eich gwyliadwriaeth, archwiliwch gychod gwenyn i weld a ydynt wedi'u heintio â chlefyd y gwenyn a chadwch lygad am Gacwn Asia, os na fyddwch yn edrych, ni fyddwch yn dod o hyd iddynt. Mae'n esgus da am dreulio tipyn bach mwy o amser yn y wenynfa, yn gwylio'r gwenyn!

Dymunaf 2020 braf iawn i bob gwenynwr. Gobeithio y cawn flwyddyn wych arall, bod eich llofftydd mêl yn llawn ac y byddwch yn cadw'n iach!

**Frank Gellatly**
Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol, Cymru

**National Bee Unit | Uned Wenyn Genedlaethol**
**Animal and Plant Health Agency** (APHA) | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

Telephone/ Ffôn: 01267 202732 | Mobile/ Ffôn Symudol: 07775 119480 | Jabber 02082 257173 | Email/E-bost: francis.gellatly@apha.gov.uk
Website/ Gwefan: www.gov.uk/apha | Twitter/ Trydar: @APHAgovuk | Facebook/ Gweplyfr: aphagov

National Bee Unit Website (BeeBase)/ Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Address/ Cyferiad: National Bee Unit, National Agri-Food Innovation Campus, Sand Hutton, York, YO41 1LZ